**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG-PO-0288-23

Paul Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
SeneddEconomy@senedd.cymru

29 Awst 2023

**Diweddariad ar Fodel Gweithredu Targed y Ffin**

Annwyl Paul,

Pan ysgrifennais atoch ar 24 Gorffennaf, eglurais ein bod yn disgwyl cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ynghylch Model Gweithredu Targed y Ffin o fewn wythnos neu ddwy, ond cafodd y datganiad ei oedi.

Mae'n dda gennyf gadarnhau bod y ddogfen wedi cael ei gyhoeddi, o'r diwedd, ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth y DU yn https://www.gov.uk/government/publications/the-border-target-operating-model-august-2023. Ac fel yr addawais, rwyf hefyd wedi cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig.

Mae cytuno ar y Model wedi cymryd misoedd o gydweithio rhwng swyddogion yn y gwahanol lywodraethau. Fel y dangosais yn fy Natganiad Ysgrifenedig, mae manteision cyfundrefn fasnachu gydlynol ar draws Prydain Fawr yn amlwg, nid yn unig er budd ein bioddiogelwch ar y cyd ond hefyd o ran osgoi cymhlethdodau diangen i fasnachwyr.

O ganlyniad i'n cyfranogiad ni, rydym wedi sicrhau model sy'n gweithio i Gymru. Roedd yn arbennig o dda gennyf sicrhau cytundeb gan Lywodraeth y DU i addasu diffiniad Nwyddau Cymwys o Ogledd Iwerddon, i leihau'r cymhellion i fasnachwyr geisio osgoi rheolaethau iechydol a ffytoiechydol drwy symud nwyddau i Brydain Fawr o Iwerddon drwy Ogledd Iwerddon. Dylai hyn wella bioddiogelwch yn sylweddol a lleihau'r risg o fasnach yn cael ei ddargyfeirio o borthladdoedd Cymru. Wrth gwrs, mae rhagor o waith i'w wneud, a byddwn yn parhau i gydweithio i leihau'r risgiau i fioddiogelwch sydd ar ôl, yn benodol o ganlyniad i fewnforio anifeiliaid anwes o'r Undeb Ewropeaidd ehangach.

Rwyf wedi pwysleisio dro ar ôl tro yr angen i benderfyniadau ynghylch rheolaethau ar arfordir y gorllewin gael eu gwneud ar y cyd. Byddaf yn trafod dyddiad dechrau ar gyfer gwiriadau ID a gwiriadau ffisegol â chydweithwyr y mis nesaf, ac felly byddaf yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi cyn gynted ag y bo modd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cyfamser, nawr mae Model Gweithredu Targed y Ffin wedi cael ei gyhoeddi, gallwn ni roi sylw manylach i'r cynlluniau cyflawni ar gyfer y Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi, Abergwaun a Doc Penfro.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy